

Ysgol Gyfun Gymraeg

**BRO MYRDDIN**

Welsh Comprehensive School



Croesyceiliog  
Caerfyrddin / Carmarthen  
SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail:

swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones

Medi 2015

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth gyda chi am gynlluniau ysgol iach yr ysgol ac i ofyn am eich cefnogaeth wrth i ni wneud ein gorau i sicrhau iechyd a lles eich plentyn/plant. O fewn yr ysgol rydym, trwy gydweithrediad gydag Adran Arlwyyo y Sir, yn sicrhau bod ein cinio ysgol a'r diodydd a ganiateir, yn cyd-fynd â Rheoliadau Bwyta'n Iach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym hefyd, trwy ein rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hannog i fyw a bwyta'n iach. Mae gennym glybiau 5x60 ac mae'n Adran Addysg Gorfforol yn sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael yr ymarfer corff sydd angen arnynt i ddatblygu'n unigolion iach.

Gofynnaf yn garedig am eich cymorth gyda'r canlynol. Os yw eich plentyn yn dod a phecyn bwyd i'r ysgol, a fyddai'n bosibl i chi sicrhau nad ydynt yn dod ag unrhyw ddiodydd ffisiog gan gynnwys diodydd egni a bod eu pecyn bwyd yn becyn iach. Ni ddylai eich plentyn gario diodydd onibai am ddŵr gyda hwy i'r ysgol chwaith. Gofynnwn am eich cefnogaeth hefyd i sicrhau bod eich plentyn, ar bob achlysur, yn dod a chit chwaraeon ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Mae'r Adran Addysg Gorfforol ar hyn o bryd, fel pob adran arall yn yr ysgol ers mis Medi, yn cofrestru pob disgybl ar gyfer pob gwrs. Maent hefyd yn rhoi cofnod i ni, fel Uwch Dim Arwain o unrhyw ddisgybl sydd ddim yn gwneud Addysg Gorfforol am ryw reswm er mwyn ein bod yn gweld a oes patrwm. Os oes problem meddygol ddifrifol gan eich plentyn, gofynnwn i chi ddarparu papur meddyg/physio yn amlygu'r broblem i ni er mwyn ein bod yn medru gwneud gweld beth sydd orau o dan yr amgylchiadau.

Ein bwriad ni fel ysgol yw sicrhau bod pob plentyn o dan ein gofal yn datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol, disgybledig a iach. Hyderaf y cawn eich cefnogaeth yn hynny o beth.

Diolch yn ddiffuant,

Dr Llinos Jones



Ysgol Gyfun Gymraeg

**BRO MYRDDIN**

*Welsh Comprehensive School*



Croesyceiliog  
Caerfyrddin / Carmarthen  
SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail:

swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

**Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones**

September 2015

Dear parent / guardian,

I am writing to share with you information about our Healthy School initiative and to ask for your support in ensuring the health and welfare of your child / children. Within the school, in collaboration with the Catering Department, we ensure that our school meals and drinks are in keeping with the Healthy Eating guidelines set out by the Welsh Government. We also, through our PSE programme make sure that pupils are encouraged to live and eat healthily. We have numerous 5x60 activities and the Physical Education Department tries to ensure that all pupils have the exercise they need in order to develop into healthy individuals.

I urge you to support us with the following. If your child brings a packed lunch to school, would you please make sure that they do not bring any fizzy drinks, including energy drinks, and that their packed lunch is a healthy one. Your child should only carry water to school. We also ask for your support to ensure that your child, at all times, brings his/her sports kit for every PE lesson. The Physical Education Department, like every other department in the school, has since September registered all pupils for each lesson. They are then able to provide a record for the Senior Leadership Team, of any pupils who do not participate in PE lessons for any reason, so that any pattern of non-participation emerges. If your child has a serious medical condition, we ask that you provide a doctor or physiotherapist letter highlighting the problem, so that we can judge what is the best provision for your child.

Our aim as a school is to ensure that all children under our care develop to become moral, disciplined and healthy citizens. I am sure that you will give us your full support in doing this.

Yours sincerely,

Dr Llinos Jones

